# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AC ARFARNU'R PRIF WEITHREDWR

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYNHADLEDD Y CABINET, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 11 EBRILL 2017AM 9.00 AM

**YN BRESENNOL**:

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | E W Fitzgerald | C A Holley |
| P R Hood-Williams | A S Lewis | C E Lloyd |
| R C Stewart | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: C Richards

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro |
| Steve Rees | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

1 **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016-2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

Bu'r cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016-2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016/17.

3 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

4 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD**cytuno bod cofnodion y cyfarfod y Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2014 yn gofnod cywir.

5 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd.

**(SESIWN GAEËDIG)**

6 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BERFFORMIAD Y PRIF WEITHREDWR.**

Darparodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar yr amcanion perfformiad a nodwyd ganddo pan gafodd ei benodi'r llynedd. Darparodd ac amlinellodd adroddiad cynnydd manwl sy'n ymwneud â'r themâu a'r perfformiadau amrywiol tuag at yr amcanion a amlygwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Nododd ac amlinellodd hefyd ei amcanion diwygiedig ar gyfer 2017.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr amcanion, a'r meysydd pwnc amrywiol a pherfformiad, ymatebodd y Prif Weithredwr yn briodol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Roedd yr aelodau'n fodlon ar berfformiad y Prif Weithredwr;

2) Cytunodd y pwyllgor ar yr amcanion diwygiedig ar gyfer 2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.52 am

**CADEIRYDD**